SFHCHS223

# Ffitio cyfarpar, dyfais, cynnyrch a/neu system gofal iechyd i fodloni anghenion clinigol ac unigol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn gysylltiedig â gweithio gydag unigolion, pobl eraill berthnasol ac aelodau o dîm amlddisgyblaethol, fel y bo'n briodol, i ffitio cyfarpar, dyfais, cynnyrch a/neu system i fodloni'r anghenion clinigol ac anghenion yr unigolyn.

Mae ffitio yn cynnwys trosglwyddo a gwirio bod ffit y cyfarpar neu'r ddyfais yn bodloni anghenion yr unigolyn neu ei amgylchiadau yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwr a'r presgripsiwn. Gallai hyn ddigwydd mewn amrywiaeth o leoliadau clinigol ac anghlinigol. Gall y broses gynnwys profi'r cyfarpar a/neu'r ddyfais yn amgylchedd y defnyddiwr.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael at a dehongli'n gywir yr holl wybodaeth a chyfarwyddiadau gwaith sy'n berthnasol
2. gweithio'n ddiogel bob amser ac yn unol â'r holl ddeddfwriaeth, canllawiau, polisïau, gweithdrefnau a phrotocolau perthnasol
3. delio'n brydlon ac yn effeithiol ag unrhyw broblemau o fewn eich rheolaeth a rhoi gwybod am broblemau nad allant gael eu datrys
4. nodi a lleihau peryglon a risgiau yn y gweithle
5. cyfathrebu â'r unigolyn a phobl allweddol yn ôl cyflymder, modd a lefel sy'n briodol i ddealltwriaeth ac anghenion yr unigolyn, a'r hyn sy'n well ganddo
6. parchu hawliau a dymuniadau'r unigolyn o ran ei breifatrwydd, ei gredoau a'i urddas
7. darparu cymorth i'r unigolyn a gofalwyr a sicrhau bod mesurau iechyd a diogelwch yn cael eu gweithredu bob amser
8. ennill cydsyniad gwybodus, dilys gan yr unigolyn yn unol â gweithdrefnau penodol
9. cysylltu a gweithio gyda rhanddeiliaid, unigolion neu asiantaethau allweddol sy'n ymwneud â'r broses ffitio i'r unigolyn
10. cymhwyso mesurau iechyd a diogelwch, atal a rheoli heintiau, a chyfarpar diogelu personol priodol o fewn y broses ffitio
11. cadarnhau bod y cyfarpar, y ddyfais, y cynnyrch a/neu'r system yn gweithredu'n effeithiol ac yn gweithio'n ddiogel o fewn paramedrau perfformio disgwyliedig
12. ffitio'r cyfarpar neu gysylltu'r cyfarpar, y ddyfais, y cynnyrch a/neu'r system a'i weithredu, lle bo'r angen
13. gwirio diogelwch gweithredol a mesuriadau perfformio
14. cadarnhau addasrwydd ffit a maint y cyfarpar, y ddyfais, y cynnyrch a/neu'r system
15. gwirio cysur a derbyniad y cyfarpar, y ddyfais, y cynnyrch a/neu'r system, a sicrhau ei fod yn bodloni anghenion yr unigolyn a gofynion clinigol
16. gwneud addasiadau yn unol â chanllawiau'r gweithgynhyrchwr ac o fewn y fanyleb ragnodedig neu drefnu bod y person priodol yn gwneud yr addasiad
17. cytuno ar gyfnod prawf perthnasol a manylion technegol ar gyfer unigolion gan ddefnyddio cyfarpar, dyfais, cynnyrch a/neu system newydd/addasedig
18. trosglwyddo'r cyfarpar, y ddyfais, y cynnyrch a/neu'r system i'r unigolyn neu i bobl berthnasol eraill ac esbonio'n glir eu cyfrifoldebau a'r mecanweithiau ar gyfer darganfod a rhoi gwybod am unrhyw fethiant yn y system yn unol â deddfwriaeth a gofynion y sefydliad
19. cadarnhau bod gan yr unigolyn a/neu bobl berthnasol eraill yr holl ddogfennaeth berthnasol a rhoi gwybod iddynt am y mecanweithiau ar gyfer rheoli gwaith cynnal a chadw parhaus ac adolygu

20. nodi a chofnodi pan nad oes angen cyfarpar, dyfais, cynnyrch a/neu system mwyach
21. cael gwared ar wastraff yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad
22. cwblhau a storio'r holl ddogfennaeth berthnasol yn unol â gofynion y sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y ddeddfwriaeth, y canllawiau, y polisïau, y gweithdrefnau a'r protocolau presennol sy'n berthnasol i'ch ymarfer yn y gwaith, ac y mae'n rhaid i chi gadw atynt
2. cwmpas a chyfyngiadau eich cymhwysedd, eich cyfrifoldebau a'ch atebolrwydd eich hun fel y bo'n berthnasol i'ch rôl
3. sut i gael at a dehongli'r holl wybodaeth a chyfarwyddiadau gwaith sy'n berthnasol
4. gweithdrefnau penodol ar gyfer rhoi gwybod am broblemau sydd y tu hwnt i'ch cymhwysedd, eich cyfrifoldebau a'ch atebolrwydd
5. y ddyletswydd i roi gwybod am unrhyw weithred neu anwaith a allai fod yn anniogel/yn niweidiol i chi neu i eraill
6. y peryglon a'r risgiau a allai godi wrth i chi gyflawni eich rôl a sut y gallwch eu lleihau
7. sut i addasu arddulliau cyfathrebu mewn ffyrdd sy'n briodol i anghenion yr unigolyn
8. y defnydd cywir o unrhyw gyfarpar a chyfarpar diogelu personol (PPE) i amddiffyn eich iechyd a'ch diogelwch chi a phobl eraill
9. ymarfer seiliedig ar dystiolaeth a'i rôl wrth wella gofal
10. yr egwyddorion, yr ymarfer a'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â chydsyniad gwybodus
11. anghenion unigolion a gofalwyr, gan gynnwys ystyriaethau'n gysylltiedig ag urddas, cyfrinachedd a phreifatrwydd
12. y gweithdrefnau a'r dulliau sy'n gysylltiedig â chydlynu timau rhyngddisgyblaethol ac amlddisgyblaethol o fewn ac ar draws gwasanaethau
13. pwysigrwydd myfyrio ar eich ymarfer a'i berthynas â datblygiad proffesiynol parhaus
14. sut i weithio'n effeithiol fel aelod o dîm amlddisgyblaethol
15. sut i gysylltu â rhanddeiliaid allweddol a'r unigolyn ar gyfer ffitio cyfarpar, dyfeisiau meddygol a chynhyrchion sy'n berthnasol i'ch ymarfer
16. yr anatomeg a'r ffisioleg berthnasol, a'r wybodaeth arbenigol gysylltiedig sy'n berthnasol i ffitio cyfarpar, dyfais feddygol, cynnyrch a/neu systemau cysylltiedig a ragnodwyd, o fewn maes eich ymarfer
17. yr ystod o gyfarpar, dyfeisiau meddygol, cynhyrchion a systemau cysylltiedig y mae angen eu ffitio i'r unigolyn o fewn maes eich cyfrifoldeb, a'r egwyddorion wrth eu gwraidd a'u cymwysiadau
18. yr ystod dderbyniol o fesuriadau a chyfyngiadau ar ddefnydd pob math o gyfarpar, dyfais, cynnyrch a'r systemau cysylltiedig i sicrhau diogelwch ac addasrwydd i'w defnyddio cyn ffitio
19. pwysigrwydd ffitio cyfarpar, dyfeisiau meddygol, cynhyrchion a systemau cysylltiedig gyda'r unigolyn yn yr amgylchedd priodol, a sut i werthuso amgylchedd y defnyddiwr pan

fo'n berthnasol, ar gyfer y broses ffitio

20. sut i ffitio a gwneud mân addasiadau i sicrhau'r ffit a'r cysur gorau ar gyfer y cyfarpar, y dyfeisiau meddygol, y cynhyrchion a'r systemau cysylltiedig i fodloni anghenion unigol a meini prawf y presgripsiwn
21. pwysigrwydd gweithdrefnau trosglwyddo a rhoi gwybod i unigolion a phobl eraill berthnasol am eu cyfrifoldebau am y cyfarpar, y dyfeisiau, y cynhyrchion a'r systemau cysylltiedig
22. sut i nodi a chofnodi pan nad oes angen cyfarpar / dyfais mwyach
23. goblygiadau clinigol ehangach newidiadau a wnaed i aliniad, ffit ac ymarferoldeb
24. sut i gael gwared ar wastraff yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad
25. sut i gwblhau'r holl ddogfennaeth berthnasol yn unol â gofynion y sefydliad, a'i storio'n ddiogel

SFHCHS223

Ffitio cyfarpar, dyfais, cynnyrch a/neu system gofal iechyd i fodloni anghenion clinigol ac unigol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Health |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2021 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2026 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Health |
| **RCU gwreiddiol** | SFHCHS223 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Rheolwyr ac Uwch Swyddogion, Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt a Galwedigaethau Technegol, Gweithwyr iechyd proffesiynol, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal, Swyddogion Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Lechyd, Galwedigaethau Gwasanaethau Personol, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gwasanaethau Gofal Iechyd a Gwasanaethau Personol Cysylltiedig |
| **Cyfres/Set** | Iechyd Clinigol |
| **Geiriau Allweddol** | Ffitio, gofal iechyd, cyfarpar, meddygol, dyfeisiau, system, clinigol, anghenion |